

# Egwyddorion Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd 2035: DRAFFT


## Gweledigaeth:

*“Rydym eisiau Economi Ymweld er budd a lles pobl Gwynedd”*

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi Economi Ymweld sy'n cyd-fynd gydag egwyddorion Twristiaeth Cynaliadwy Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig. Bydd Cyngor Gwynedd yn cefnogi economi ymweld sy'n:

- Dathlu, parchu a gwarchod ein cymunedau, iaith a'n diwylliant;
- Cynnal a pharchu ein hamgylchedd;
- Sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd yn fwy nac unrhyw anfanteision

Gellir darlunio'n hegwyddorion ar gyfer economi ymweld cynaliadwy i'r dyfodol ar sail model cyd-ddibynnol gyda Lles Pobl Gwynedd yn ganolog:



Mae'r 3 prif egwyddor yn cynnwys is-egwyddorion blaenoriaeth sy'n gosod cyfeiriad pellach.

### **Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth**

- Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau gyda phwyslais ar falchder bro
- Economi ymweld sy'n arweinydd mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored

### **Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd**

- Economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld a'r ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol
- Economi ymweld sy'n arweinydd mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel.

### **Sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd yn fwy nac unrhyw anfanteision**

- Economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at lesiant y gymuned trwy'r flwyddyn
- Economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig cyfleon cyflogaeth o ansawdd i bobl leol trwy'r flwyddyn
- Economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol

Yn y tabl isod, manylir ar y gweithgareddau posib y gellid eu cefnogi fel sail i'r egwyddorion hyn. Gallai'r rhain lywio datblygiad Cynllun Gweithredu Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd 2030:

Them Egwyddor	Manylion Egwyddor	Gweithgaredd posib
<p><b>Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau gyda phwyslais ar falchder bro</li> <li>• Economi ymweld sy'n arweinydd mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cryfhau'r cyswllt rhwng cymunedau a'r economi ymweld a chefnogi datblygiadau wedi eu gwreiddio yn y gymuned.</li> <li>• Naws am Le: Cefnogi economi ymweld sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Gwynedd ac amlygu ein hynodrwydd drwy annog defnydd o'r iaith a'r diwylliant mewn atyniadau a busnesau.</li> <li>• Rhoi ystyriaeth i effaith datblygiadau ar yr iaith Gymraeg a chyfleon i'w hyrwyddo a'i datblygu – gan gynnwys targedu marchnad Cymru.</li> <li>• Safle Treftadaeth Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru.</li> </ul>
<p><b>Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld a'r ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol</li> <li>• Economi ymweld sy'n arweinydd mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymledu ymwelwyr o'r potiau mêl i rannau eraill mewn modd cynaliadwy – e.e. Cynllun Trafnidiaeth Eryri + cludiant cyhoeddus.</li> <li>• Datblygu rhwydwaith o bwyntiau gwefru trydan.</li> <li>• Datblygu rhwydwaith o bwyntiau llenwi poteli dwr.</li> <li>• Gwynedd di-blastig</li> </ul>
<p><b>Sicrhau bod y manteision i gymunedau lleol yn fwy nac unrhyw anfanteision</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at lesiant y gymuned trwy'r flwyddyn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu trefniadau rheolaeth o ail-gartrefi a hyrwyddo bylchau mewn llety wedi' wasanaethu.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"><li>• Economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig cyfleon cyflogaeth o ansawdd i bobl leol trwy'r flwyddyn</li><li>• Economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol</li><li>• Economi ymweld sy'n gwella ansawdd y profiad a'r cynnig i bawb.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Isadeiledd elfennol cymuned: biniau, ailgylchu, ffyrdd, glendid, toiledau, llwybrau, tref-weddau, parcio, adnoddau'r arfordir.</li><li>• Technoleg gwybodaeth (Wi-Fi / Band eang ayb) gan ymateb i anghenion yr economi ymweld a'r dechnoleg ddiweddaraf.</li><li>• Rheoli gwersylla gwyllt a chartrefi-modur (motorhomes).</li><li>• Rhwydweithiau gwasanaeth trafndiaeth cyhoeddus o safon ac integredig.</li><li>• Cydweithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu Treth Ymwelwyr i gefnogi gwasanaethau a chymunedau.</li><li>• Codi ymwybyddiaeth o broffil y sector a chyfleon gwaith ymysg pobl Gwynedd, ysgolion a cholegau er mwyn hyrwyddo llwybrau gyrfa i bobl leol fentro iddynt.</li><li>• Hyfforddiant mewn bylchau sgiliau a sgiliau angenrheidiol.</li><li>• Darparu gwybodaeth a marchnata digidol arloesol.</li><li>• Targedu marchnadoedd o werth uwch sy'n gwario mwy ac yn ymweld trwy'r flwyddyn gan ymestyn y tymor.</li><li>• Hyrwyddo cysylltiadau a chyfleon i fusnesau'r 'eco-system twristiaeth' a chadwyni cyflenwi lleol.</li></ul>
--	--	--

